



**CARCHAR EI MAWRHYDI**  
**ABERTAWE**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**  
**2015 – 2016**

**Am y cyfnod diwedd Mai 2015 – diwedd Mai 2016**

## Adran 1

---

### SWYDDOGAETH STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Carchar a Chanolfan Allgludo Mewnfudwyr gael eu monitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Garchardai o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r Carchar neu ganolfan wedi'i leoli.

Mae gan y Bwrdd y cyfrifoldebau penodol canlynol:

- (1) Bodloni ei hun fod y rheini sy'n cael eu dal yn y ddalfa o fewn ei garchar yn cael eu trin yn ddyngarol a chyfiawn a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn rhai digonol.
- (2) Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog i'r hwn y mae wedi dirprwyo awdurdod fel y barno'n addas, yn brydlon o unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r Carchar wedi cyrraedd y safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y rheini yn ei Ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau'r hawl i weld pob carcharor a phob rhan o'r Carchar a hefyd cofnodion carcharorion.

## **ADRAN 2**

### **CYNNWYS**

**ADRAN 1** - **Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol**

**ADRAN 2** - **Cynnwys**

**ADRAN 3** - **Disgrifiad o'r Carchar**

**ADRAN 4** - **Crynodeb**

**ADRAN 5** - **Yr Adroddiad**  
Cydraddoldeb a Chynhwysiant  
Addysg, Dysgu a Sgiliau  
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl  
Gweithgaredd buddiol  
Ailsefydlu  
Carcharu diogelach  
Cadw ar wahân, Gwahanu a Gofal  
Gwasanaethau Preswyl

**ADRAN 6** - **Rhannau eraill o'r Carchar**  
Derbyn a Sefydlu

**ADRAN 7** - **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**  
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol  
Ystadegau'r Bwrdd

### **ADRAN 3 Disgrifiad o'r Carchar**

3.1 Carchar lleol Categori B yw Carchar Ei Mawrhydi Abertawe, sy'n dal oedolion ac oedolion ifanc gwrywaidd. Mae carcharorion sy'n oedolion naill ai wedi cael eu cadw yn y ddalfa o'r llysoedd tra byddant yn disgwyl treial, neu maent yn garcharorion wedi eu dedfrydu sy'n gwasanaethu llai na dwy flynedd fel arfer. Carcharorion ar remand yw pawb o'r oedolion ifanc.

3.2 Adeiladwyd Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn 1861 i ddal 219 o garcharorion ac mae'r bloc preswyl heb gael ei newid yn strwythurol er bod moderneiddio ac uwchraddio wedi digwydd. Agorwyd Adain newydd, Adain G ym mis Medi 2015, gan ychwanegu 60 o leoedd ychwanegol. Fodd bynnag, oherwydd bod poblogaeth carchardai'n cynyddu'n barhaus, cynhwysedd gweithredol presennol Abertawe yw 515. Mae'r mwyafrif o gelloedd yn cynnwys dau garcharor, fodd bynnag mae ychydig o gelloedd sy'n cynnwys tri, gyda nifer bach o gelloedd sengl.

3.3 Mae parch at unigolion yn holl bwysig. Mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn allweddol i lesiant y carchar. Mae staff yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal amgylchedd sy'n sefydlog, ac yn fwy na dim, yn ddiogel. Y nod yw i'r carchar, trwy'r rhaglenni a'r gweithgareddau amrywiol a chadarnhaol sydd ar gael, alluogi carcharorion i fynd i'r afael â'u haildroseddu, a thrwy hynny ei leihau, a'u cynorthwyo gydag ailsefydlu. Cyflawnir hyn trwy bartneriaethau effeithiol gydag amrywiaeth helaeth o sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol.

## **CRYNODEB**

### **CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT**

4.1.1 Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod cynnydd wedi cael ei barhau dros y flwyddyn gan y Tîm Cydraddoldeb.

4.1.2 Mae'n dda fod presenoldeb mewn cyfarfodydd yn parhau i wella a bod pob maes a disgyblaeth o fewn y sefydliad yn cael eu cynrychioli.

4.1.3 Mae penodi Rheolwr Achos wedi cael effaith cadarnhaol ar lesiant nifer cynyddol o garcharorion ag anableddau yn y carchar.

4.1.4 Yn anffodus, mae diffyg swyddog mewnfudo annibynnol yn y sefydliad wedi arwain at broblemau gyda rhyddhau dinasyddion tramor.

### **ADDYSG, DYSGU A SGILIAU**

4.2.1 Mae'r Adran wedi cael blwyddyn dda o safbwynt perfformiad, gyda holl dargedau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyrraedd.

4.2.2 Mae'r Adran yn dal i fod yn rhan annatod a gwerthfawr o gyfundrefn y carchar gyda nifer o gynlluniau arloesol ac ysgogol wedi eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Mae'r dynion yn ennill amrywiaeth o sgiliau a all fod yn ddefnyddiol ym myd gwaith y tu allan i'r carchar.

4.2.3 Mae'n galonogol iawn fod y Campws Dysgu Rhithwir bellach yn gweithredu'n llawn ac yn darparu asesiadau cyfrifiadurol cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd.

### **GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL**

4.3.1. Daeth Carchar Abertawe yn sefydliad di-fwg ers mis Mawrth 2016. Cafodd y gweithredu hwn ei gynllunio a'i drefnu'n dda. Fodd bynnag, bydd cynnal y polisi yn her sylweddol.

4.3.2 Er bod deintyddion, podiatryddion, optegwyr a gwasanaethau seiciatrig ar gael i'r dynion, mae'n siomedig adrodd unwaith eto y gall fod cyfnodau aros hir am ofal deintyddol a gofal llygaid. Rhaid i'r Bwrdd unwaith eto fynegi ei bryderon am y cyfleoedd am wasanaeth optegwyr a deintyddion.

4.3.3 Mae'r cyfleoedd am ofal iechyd yn dal i fod yn destun llawer o geisiadau i'r Bwrdd, yn ail yn unig i gollu eiddo. Caiff y rhain eu datrys yn gyflym fel arfer gyda chymorth y Pennaeth Gofal Iechyd a'i thîm.

4.3.4 Mae'n bleser adrodd bod cysylltiadau rhagorol wedi cael eu sefydlu gyda'r Nyrs Digartrefedd, y Gwasanaeth Allgymorth Iechyd Meddwl a Phobl Fregus a Letyir a meddygon teulu lleol.

4.3.5 Mae'r Adran Gofal Iechyd unwaith eto wedi profi cyfnod o newid a fydd yn arwain at Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

## **GWEITHGAREDD BUDDIOL**

4.4.1 Mae ymdrech barhaus yn cael ei gwneud i sicrhau bod gweithgaredd buddiol a phwrpasol i ddynion a chaiff yr ymdrechion a wneir gan y carchar eu cydnabod gan y Bwrdd.

## **AILSEFYDLU**

4.5.1 Mae'r Bwrdd yn falch iawn fod PACT Cymru yn dal i ddarparu cyrsiau a chyflwyno nifer o brosiectau arloesol a buddiol. Mae'r Bwrdd yn bryderus bod disgwyl i gyllid PACT ddod i ben ym mis Awst 2017 ac mae'n gefnogol iawn i unrhyw gynllun i gael hyd i ffynonellau eraill o ariannu. Byddai colli'r gwasanaethau hyn yn cael effaith niweidiol ar y dull presennol o ddarparu.

4.5.2 Mae'r Bwrdd yn hapus iawn gyda pherfformiad rhaglen y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Bwrdd yn bryderus y gall deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru ar asesu blaenoriaeth am dai effeithio'n niweidiol ar un elfen allweddol o'r Llwybr Lleihau Aildroseddu.

## **CARCHARU DIOGELACH**

4.6.1. Y llynedd, mynegwyd pryder gan y Bwrdd ynghylch prosesu dogfennau ACCT. Mae'n bleser felly adrodd bod cynnydd mewn hyfforddiant ynghyd â gwiriadau sicrwydd ansawdd cyson yn arwain at newid er gwell.

4.6.2 Mae'r Tîm Carcharu Diogelach wedi cyflwyno cwrs Adferiad Clyfar i ddynion â phroblemau iechyd meddwl ac maent yn datblygu cysylltiadau cryfach ag amrywiaeth o asiantaethau iechyd meddwl.

4.6.3 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn bryderus ynghylch diffyg lle preifat addas i gyfweild yn yr Adain Sefydlu. Mae'n annerbyniol fod cwestiynau personol yn cael eu gofyn i ddynion wrth iddynt eistedd ar fwrdd ar landing yr adain lle mae dynion eraill yn crwydro o gwmpas.

## **CADW AR WAHÂN, GWAHANU A GOFAL**

4.7.1 Yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, fe wnaeth y Bwrdd dynnu sylw at broblemau lle nad oedd aelodau'n cael gwybod yn rheolaidd am adolygiadau. Er y bu rhywfaint o welliant, nid yw hyn wedi bod yn gyson. O ganlyniad, bydd y Bwrdd yn dal i fonitro i'r perwyl hwn. Teimlwn ei bod yn hanfodol ein bod ni yn ein rôl fel Monitoriaid Annibynnol y Sefydliad hwn yn cael gwybod am adolygiadau.

4.7.2 Caiff y Bwrdd ei hysbysu bob amser o fewn 24 awr i symudiadau i gadw ar wahân. Mae aelodau'r Bwrdd yn gallu gweld pob carcharor a siarad yn rhydd ag ef.

4.7.3 Mae nifer y dyfarniadau'n dal i godi, gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

## **GWASANAETHAU PRESWYL**

4.8.1 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn bryderus ynghylch gorlenwi'r carchar a safon y cyfleusterau sylfaenol yn y mwyafrif o gelloedd, sy'n cynnwys eu cyflwr cyffredinol a diffyg llenni preifatrwydd o amgylch toiledau.

4.8.2 Caiff yr Adran Arlwyo ei threfnu'n dda a'i rhedeg yn dda, gan ddarparu dewisiadau amrywiol ac addas o fwyd, fel y tystiolaethwyd gan arolygiadau a wnaed gan Grŵp Gwasanaethau Gweithredol ac Ymyrryd NOMs ac Adran Amgylcheddol Dinas a Sir Abertawe, a chan dderbyn y sgôr pum seren mewn hylendid bwyd.

4.8.3 Mae'r Adran Arlwyo'n dal i archwilio syniadau newydd ac ymateb i awgrymiadau a dderbyniwyd o arolygon carcharorion a thrwy fforwm carcharorion Pwyllgor Ymgynghorol yr Adain.

## **ADRAN 5 – YR ADRODDIAD**

### **CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT**

5.1.1 Cynhelir cyfarfodydd cydraddoldeb bob wyth wythnos ac mae'r presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dal i wella, gyda chynrychiolaeth o bob adain, Uwch Reolwyr, y Caplan a'r Imam.

5.1.2 Mae Ffurflenni Adrodd Digwyddiad o Wahaniaethu (DIRF)/ Ceisiadau cwynion ar gael ar holl adenydd y carchar a chynrychiolwyr y dynion yn cael gwybod y gweithdrefnau. Nodwyd bod nifer y ffurflenni DIRF wedi cynyddu'n ddiweddar, er y gellid gwneud mwy i'w hyrwyddo. Mae posteri wedi cael eu cynhyrchu gyda help yr Adran Dysgu a Sgiliau ac maent ar gael ar bob adain. Caiff holiaduron cydraddoldeb eu cwblhau fel rhan o'r broses sefydlu.

5.1.3 Mae Cynrychiolwyr Cydraddoldeb ar bob adain.

5.1.4 Mae'r Adran Arlwyo yn dal i ddarparu cyfleusterau a bwyd i garcharorion Mwslimaidd yn ystod Ramadan. Mae adborth gan garcharorion ynghylch arlwyo wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r Adran Arlwyo wedi trefnu prydau thema gydag amrywiaeth o fwyd Tsieineaidd ac Indiaidd. Mae llwyau ac offer wedi cael eu cadw yn unol â chredoau crefyddol y rheini sy'n bwyta bwyd Halal.

5.1.5 Caiff gwybodaeth/data cydraddoldeb ei gyhoeddi'n rheolaidd, sy'n cynnwys niferoedd y dynion ag anawsterau dysgu, dyslecsia, nam ar y golwg ac anawsterau dysgu.

5.1.6 Caiff y dynion eu hannog i ddefnyddio'r llyfrgell er bod y presenoldeb yn amrywiol, a hynny'n bennaf yn sgil prinder staff a diffyg symbyliad. Mae dynion anabl yn cael help gyda chadeiriau olwyn i fynd i'r llyfrgell.

5.1.7 Mae cynnydd da yn dal i gael ei wneud gyda'r Polisi Rhoi'r Gorau i Ysmygu. Mae cyngor ar LGBT a defnyddio condom ar gael yn yr Adran Gofal Iechyd.

5.1.8 Ymwelwyd â dinasyddion tramor a charcharorion eraill ag angen cymorth ar ddau achlysur gan swyddogion mewnfudo a swyddogion o Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig ac maent ar gael ar adegau eraill ar e-bost. Fodd bynnag, nid oes swyddog mewnfudo annibynnol yn y sefydliad ac mae hyn wedi arwain at broblemau sylweddol gyda rhyddhau/trosglwyddo dinesydd tramor o'r carchar hwn.

5.1.9 Trefnir darpariaeth Gymraeg ac anogir defnyddio'r Gymraeg.

5.1.10 I gloi, mae'r Rheolwr Achos a Swyddogion wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gynnal ansawdd bywyd da i'r dynion.

## **ADDYSG, DYSGU A SGILIAU**

5.2.1 Cyrhaeddwyd pob targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 a rhagorwyd arnynt mewn rhai achosion. Roedd y cyfanswm o 3,636 o gyrsiau a gychwynnodd yn ystod y flwyddyn honno, a oedd yn 771 uwchlaw'r targed. Roedd dau ymweliad sicrhau gan Uwch Gomisiynydd Comisiynu NOMS Cymru a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus.

5.2.2 Symudwyd y broses asesu cychwynnol Dysgu a Sgiliau i'r brif adran addysg o weithdy 5. Bu hyn yn brofiad mwy integreiddiol gan fod y dynion yn gallu ymuno â'r llyfrgell ac mae'n rhoi 'blas' i'r dynion o'r hyn y gall darpariaeth addysg ei gynnig iddynt. Mae'r brif adran yn amgylchedd llawer mwy cefnogol yn enwedig i'r rheini sydd newydd gael eu derbyn i'r carchar.

5.2.3 Defnyddir y system Campws Rhithwir bellach i gyflawni'r asesiadau cyfrifiadurol BKSb cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae mewngofnodi i'r system VC yn dal i gymryd amser ond caiff hyn ei fonitro. Mae gwybodaeth Gyrfa Cymru am gyrsiau colegau a hyfforddi bellach ar gael ar wefan VC. Mae disgwyl i'r asesiad cyfrifiadurol 'Do It Profiler' a fydd yn cefnogi anghenion y dynion hynny sydd ag anawsterau dysgu ac anabledau gael ei roi ar waith erbyn diwedd mis Awst. Bydd hyn yn helpu staff ym mhob maes i ddeall anawsterau unigolion a sut i'w helpu.

5.2.4 Fe wnaeth cynrychiolwyr o staff y Radio Carchar Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ymweld â'r adran i recordio adolygiad llyfr o 'The Life of Pi' ar gyfer y rhaglen 'Books Unlocked' sy'n cael ei darlledu ar radio'r carchar bob mis. Rhoddwyd copi o'r llyfr i'r dynion ei ddarllen ac wedyn cychwynnwyd ar drafodaeth fywiog ar rinweddau'r testun. Gobeithir y gellir gwneud hyn eto yn y dyfodol agos.



5.2.5 Fe wnaeth grŵp o feirdd sy'n galw'u hunain y 'Beirdd ar y Bryn' o Abertawe, gynnal gweithdy barddoniaeth. Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd recordiad DVD a wnaed yn arbennig ar gyfer Abertawe gan y bardd reggae 'Dub' enwog Benjamin Zephaniah. Cafodd cystadleuaeth farddoniaeth ddilynol wedi'r digwyddiad ei beirniadu gan Benjamin ei hun.

5.2.6 Nid yw staffio yn yr adran yn cyrraedd y safon o 8 athro. Mae ymgyrch recriwtio ar waith ynghyd â gwaith cyflenwi gan asiantaeth ar gyfer absenoldeb mamolaeth. I helpu'r problemau staff, mae myfyriwr Tystysgrif Addysg i Raddedigion yn ymuno â'r adran ar leoliad ym mis Medi.

5.2.7 Mae'r llyfrgell wedi sefydlu pod 'Gweithio i Ddysgu' sy'n cynnwys gwybodaeth am gwrs addysg/hyfforddi yn y gymuned. Mae'r nifer o ddynion sy'n gwneud yr 'Her Darllen Ymlaen Llaw', lle mae'n ofynnol i'r dynion ddarllen chwe llyfr a rhoi adolygiadau ar bob un, wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaeth 132 gymryd yr her ac fe'i cwblhawyd gan 83, a dyfarnwyd tystysgrifau a gwobrau iddynt.

5.2.8 Mae'r adran yn cefnogi prosiect trwy'r Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion (PET) sy'n edrych ar ffyrdd o wella'r profiad o ddysgu o bell mewn carchardai. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyfleoedd am ddysgu o bell trwy ddarparu deunyddiau cymorth, cynyddu'r gefnogaeth i unigolion ac yn y pen draw gefnogi'r dysgwr 'drwy'r giât' ar ôl ei ryddhau. Mae 5 o ddynion yn cymryd rhan mewn dysgu o bell ar hyn o bryd, yn astudio Dylunio Tu Mewn, Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor, a Chwmsela ar Gyffuriau. Mae un o'r cyn-ddysgwyr o bell newydd gael ei dderbyn fel myfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Caint.

5.2.9 Mae cryn dipyn o waith cydweithredol wedi bod yn yr adran wrth gefnogi gweithredu'r cynllun Di-Fwg. Fe wnaeth y Gweithdy Cyfryngau gynhyrchu taflenni, posteri ac arddangos gwybodaeth ar fyrddau hysbysu drwy'r carchar. Roedd staff y llyfrgell yn rhan annatod o'r prosiect ac yn sicrhau bod amrywiaeth o destunau addas ar gael i bob lefel o ddarllenwyr. Roedd arddangosiadau amlwg yn y llyfrgell i annog y dynion yn ystod y cyfnod o gyflwyno'r cynllun di-fwg ym mis Mawrth.

5.2.10 Mae'r Gweithdy Cyfryngau yn dal i fod yn arloesol ac yn greadigol. Mae pecynnau dysgu newydd yn cynnwys Ffotograffiaeth Ddigidol, Animeiddio a Chynhyrchu Fideo. Mae'r rhaglenni i'r carchar yn rhai cyffrous.

5.2.11 Mae Cynllun Darllen Ymddiriedolaeth Shannon yn dal i roi gwasanaeth da i'r dynion hynny sydd ag anawsterau dysgu. Mae yna 10 o fentoriaid cymheiriaid achrededig Ymddiriedolaeth Shannon a Chydgysylltydd Mentoriaid.

5.2.12 Mae'r adran yn dal i fod yn rhan annatod a gwerthfawr o gyfundrefn y carchar.

## **GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL**

5.3.1 Daeth Carchar Abertawe yn ddi-fwg, yn unol â pholisi'r Llywodraeth ym mis Mawrth 2016 ac wrth wneud hynny daeth yn un o'r carchardai cyntaf yn y wlad i wneud hynny. Roedd cyflwyno'r polisi hwn yn destun pryder sylweddol. Fodd bynnag, cafodd y gweithredu ei gynllunio a'i drefnu'n dda, gyda threfnu Dosbarthiadau Rhoi'r Gorau i Ysmygu, cyflwyno dewisiadau eraill i gymryd lle ysmygu, fel patsys a "vaping", adnabod eiriolwyr, ynghyd ag ymgyrch addysg a gwybodaeth gadarnhaol yn cynnwys y dynion a'u teuluoedd. Mae nifer o broblemau wedi bod gyda chyflwyno'r gwaharddiad hwn, ac roedd un yn ymwneud â dynion yn cael eu trosglwyddo i Abertawe o sefydliadau eraill nad oedd yn rhan o'r gyfundrefn ddi-fwg ac nad oedd wedi cael gwybod y byddent yn trosglwyddo i amgylchedd di-fwg. Nid oes unrhyw amheuaeth fod cyflwyno a chynnal y polisi yn dal i fod yn her sylweddol i'r sefydliad.

5.3.2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Adran Gofal Iechyd unwaith eto wedi bod yn mynd trwy gyfnod o newid, gyda threfniant i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bro Morgannwg, gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth gofal iechyd y carchar o 01 Gorffennaf 2016.

5.3.3 Rhaid nodi nad oes unrhyw gyfleuster i gleifion mewnol yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe. Pe bai angen, mae gan y carchar y fantais o gael dau ysbyty'r Bwrdd Iechyd Lleol gerllaw, sef Treforys a Singleton. Mae hefyd gyfleuster cleifion mewnol i garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd. Ceir ymweliad dyddiol gan ymarferydd cyffredinol.

5.3.4 Er bod carcharorion yn gallu cael at ddeintyddion, podiatryddion, optegwyr a gwasanaethau seiciatrigrig, gall fod cyfnodau aros hir am ofal deintyddol a gofal iechyd. Ymddengys fod ymweliadau'r optegydd yn tueddu i fod braidd yn ddi-drefn, fel hyn mae pethau wedi bod ers sawl blwyddyn bellach, ac ymddengys y cânt eu penderfynu gan nifer y carcharorion ar y rhestr aros.

5.3.5 Yn ddiweddar, yn sgil marwolaeth anffodus deintydd y carchar, mae amserau aros wedi cynyddu ychydig, ond fe wnaeth y carchar bob ymdrech i gywiro hyn cyn gynted ag a oedd yn bosibl.

5.3.6 Caiff y tîm gofal iechyd eu cadw'n brysur iawn gyda rhan fawr o boblogaeth y carchar ar feddyginiaeth, yn ogystal â'r gwaith o ymwneud â sgrinio gofal iechyd wrth i garcharorion gyrraedd ac ymwneud â dogfennau ACCT ac ymateb i achosion meddygol brys o fewn y carchar.

5.3.7 Nid ymddengys fod amserau aros yn ormodol mewn cymhariaeth â'r rheini yn y gymuned yn gyffredinol, fodd bynnag, mae eithriadau lle gall pobl gael eu colli i raddau yn y system atgyfeirio. Unwaith eto, nid yw hyn yn anarferol yn narpariaeth gofal iechyd y gymuned o gwmpas, ac nid yw wedi'i gyfyngu i ofal iechyd yn y carchar yn unig.

5.3.8 Mae anawsterau i gael at wasanaethau gofal iechyd, fodd bynnag, yn dal yn destun llawer o geisiadau i'r Bwrdd, yn ail yn unig i golli eiddo. Caiff y rhain eu datrys yn gyflym fel arfer gydag esboniad o lle mae pobl yn y gadwyn atgyfeirio, a beth y gallant ei ddisgwyl. Mae swyddogion Gofal Iechyd, yn

enwedig y Pennaeth, yn barod iawn i helpu i ddatrys problemau a ddygir atynt gan y Bwrdd.

5.3.9 Mae cysylltiadau rhagorol gyda'r Nyrs Digartrefedd, a'r Gwasanaeth Allgymorth Iechyd Meddwl a Phobl Fregus a Letyir, ac â'r meddygon ym Meddygfa'r Stryd Fawr, Abertawe, lle gall carcharorion heb gartref sefydlog fynd ar ôl cael eu rhyddhau.

5.3.10 Mae gan y Carchar hefyd ei nyrsys iechyd meddwl mewngymorth ei hun, sy'n darparu'r cysylltiad rhwng gwasanaethau seiciatrig a gwasanaethau ffforensig seiciatrig i'r rheini y mae angen y gwasanaeth hwn arnynt. Caiff presenoldeb rheolaidd seiciatryddion ffforensig yn y carchar ei drefnu trwyddynt hwy.

5.3.11 Mae'r Nyrs Iechyd Meddwl Digartrefedd ac Allgymorth Pobl Fregus a Letyir hefyd yn eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Iechyd y Carchar. Bydd staff Gofal Iechyd yn cydgysylltu â'r tîm digartrefedd cyn rhyddhau, gan eu hysbysu o driniaethau a meddyginiaeth y carcharor a ryddheir, ac mae hyn wedi profi i fod yn gam cadarnhaol iawn yn y mwyafrif o achosion.

5.3.12 Mae gwasanaeth y tu allan i oriau y meddyg teulu hefyd ar gael. Mae ymweliadau rheolaidd gan arbenigwyr iechyd meddwl. Mae amserau aros yn debyg i'r rheini yn y gymuned, gellir dweud eu bod yn well ar adegau o ran cael at feddyg teulu, ond gallant amrywio o ran amser gan ddibynnu ar arbenigedd yr atgyfeiriad.

## **GWEITHGAREDD BUDDIOL**

5.4.1 I ategu'r cynlluniau dysgu a sgiliau, rhoddir cyfle i'r dynion gyflawni gwaith buddiol mewn amrywiol feysydd. Mae 22 o ddynion yn gweithio yn y gegin ar hyn o bryd. Ar ôl cwrs pythefnos mewn hylendid sylfaenol, gallant, yn ogystal â gweithio, hefyd ennill NVQ Lefel 1 a 2.

Mae'r gegin yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe wedi llwyddo'n gyson i gael tystysgrif hylendid ac iddi radd 5 seren.

5.4.2 Caiff y dynion eu cyflogi mewn amryw o feysydd, fel a ganlyn:

- Cyfnewidfa Ddillad – 12 dyn
- Siop 1 Beiciau - 15 i 18 dyn
- Siop 2 Tecstilau - 15 dyn
- Siop 3 Tecstilau - 30 dyn
- Siop 4 BICS - 12 dyn
- Golchdy CES - 15 dyn
- Ailgylchu - 15 dyn

5.4.3 Caiff cymwysterau perfformiad NVQ eu hennill o fewn Siopau 1, 3, 4 a chymwysterau NVQ CES gyda Lletygarwch yn cael eu hennill o fewn CEF ac Ailgylchu.

5.4.4 Mae dau weithgaredd wedi dod i ben, sef stripio paledau pren a phlymio.

5.4.5 Mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe i sicrhau gweithgaredd buddiol a phwrpasol ond, yn anffodus fel y pwysleisiwyd o'r blaen, mae'r carchar yn dal i weithredu gyda thair anfantais sylweddol:

1. Mae'r fynedfa wedi ei chyfyngu i lorïau 7.5 tunnell (sy'n effeithio ar gost trafndiaeth)
2. Lle hynod o gyfyngedig i storio eitemau mawr a/neu swmpus.
3. Mae'n lle pell i Orllewin Caerdydd a Phen-y-bont.

5.4.6 Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ymdrechion a wneir gan y carchar i sicrhau bod carcharorion yn cael eu cyflogi i ddibenion buddiol.

## **AILSEFYDLU**

5.5.1 Nod y tîm ailsefydlu yw sicrhau bod pob carcharor yn cael eu paratoi'n addas ar gyfer eu rhyddhau ac wrth wneud hynny yn lleihau ymddygiad troseddol. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gwaith cyflogedig i garcharorion pan gânt eu rhyddhau yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i'r rhai sy'n gofyn amdano.

5.5.2 Wrth i'r rhaglen Cwmniâu Adsefydlu Cymunedol gael ei chyflwyno, a Chwmni Adsefydlu Cymunedol yn cymryd y cyfrifoldeb dros anghenion Adsefydlu'r dynion, mae targedau perfformiad wedi cael eu newid a chofnodir y rhain yn erbyn y matrices a raeadrir i'r Pennaeth Lleihau Aildroseddu a'r Llywodraethwr Llywodraethu yn fisol. Un elfen allweddol o'r Llwybr Lleihau Aildroseddu sydd wedi achosi pryder ledled y Rhanbarth yw deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru ar asesu blaenoriaeth am dai. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar y cymorth y gall y dynion ei dderbyn.

5.5.3 Mae PACT Cymru yn darparu nifer o gyrsiau gan gynnwys un sydd â'r nod o helpu carcharorion y mae eu troseddau'n gysylltiedig â thrais domestig. Mae hefyd gwrs grŵp babanod ac iddo'r nod o roi sgiliau rhianta ymarferol i dadau, a chws ag iddo'r teitl Amser i Deuluoedd. Mae cynllun newydd o'r enw "Pob Ymweliad yn Cyfrif" am gael ei gyflwyno, gyda'r nod o sicrhau bod ymweliadau'n brofiadau cadarnhaol i'r carcharor a'r ymwelydd. Bydd swyddogion yn cael eu hyfforddi i gynnig cyngor a chymorth i'r rheini sy'n dymuno hynny. Byddant yn cael eu hyfforddi hefyd i gadarnhau'r Rhaglen Gwarchod Diogel i blant. Mae disgwyl i gyllid PACT ddod i ben ym mis Awst 2017, a rhoddir ystyriaeth i ffynonellau eraill o ariannu. Byddai colli'r gwasanaethau hyn yn cael effaith niweidiol ar y model darparu presennol.

5.5.4 Dechreuodd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Working Links, weithio yn y carchar yn gynnar ym mis Mai 2015 gydag Ymddiriedolaeth St Giles yn cychwyn darparu gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2015. Ar yr adeg y gwnaed yr adroddiad hwn, mae pontio rhwydd wedi digwydd rhwng staff Carchar Ei Mawrhydi Abertawe sy'n rheoli'r Llwybrau Ailsefydlu a thîm y Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n eu rheoli. Maent wedi integreiddio'n eithriadol o dda gyda'r staff a'r dynion.

## **CARCHARU DIOGELACH**

5.6.1 Er cyfnod yr adroddiad diwethaf mae'r Tîm Carcharu Diogelach wedi dod yn llawer amlycach. Ers mis Ionawr 2016, mae cyfarfodydd misol wedi cael eu cynnal a chynnydd sylweddol wedi cael ei wneud. Rhaid rhoi clod i'r llywodraethwr a gymerodd drosodd y cyfrifoldeb am y tîm ar ddechrau'r flwyddyn.

5.6.2 Mae ansawdd arsylwi a chofnodi mewn dogfennau ACCT wedi bod yn destun pryder ond mae mwy o hyfforddi ynghyd â'r gwiriadau sicrhau ansawdd cyson yn arwain at newid cadarnhaol. Mae monitro manylach o adolygiadau ACCT gan y Tîm Carcharu Diogelach yn helpu i sicrhau bod pob dogfennaeth o'r safon angenrheidiol. Caiff dogfennau ACCT eu rheoli bellach gan swyddog goruchwylio penodol gydag achosion yn cael eu dyrannu i swyddogion goruchwylio yn ôl y graddau y maent ar gael. Mae hyn yn sicrhau parhad gofal drwy gydol y cyfnod y mae'r ddogfen yn agored.

5.6.3 Nid oes cynrychiolydd o'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn bresennol ym mhob cyfarfod ond mae'n monitro'r cofnodion a'r data ac felly mae'n gallu adnabod tueddiadau a phroblemau. Yn ystod rhan olaf 2015 nodwyd mai anaml yr oedd pwyntiau gweithredu a godwyd mewn cyfarfodydd yn cael eu gweithredu. Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd yn amrywiol gyda phresenoldeb da mewn ychydig o gyfarfodydd yn unig. Mae'n galonogol iawn nodi bod gwelliant wedi bod ers mis Ionawr 2016 yn y ffordd y caiff problemau eu datrys ac mewn presenoldeb.

5.6.4 Defnyddir dull cyson wedi'i ddiffinio'n glir gan staff bellach wrth ymdrin ag achosion cymhleth. Mae rheolwr achos yn cael ei ddyrannu i fod yn gyfrifol am achosion hyd nes y'u cwblheir a bydd y Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Garcharu Diogelach ar adegau yn rheoli achosion cymhleth gwyliadwriaeth gyson yn bersonol. Lle nad yw hynny'n ymarferol, bydd Rheolwr Carcharu neu swyddog o radd Llywodraethwr yn rheoli'r ddogfen.

5.6.5 Mae wedi bod yn flwyddyn anodd a thrist iawn i Garchar Ei Mawrhydi Abertawe gyda dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Digwyddodd y ddwy yn ystod y 48 awr cyntaf yn y ddalfa. Nid oedd y naill ddyn na'r llall ar ddogfen ACCT fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i roi blaenoriaeth i adnabod carcharorion agored i niwed a'r rheini mewn risg o hunan-niweidio a chyflawni hunanladdiad. Bu farw dau ddyn arall yn y gymuned yn fuan ar ôl cael eu rhyddhau ac roedd dwy ymgais arall i gyflawni hunanladdiad a arweiniodd ar anafiadau difrifol am oes. Mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn achosi tristwch a phryder mawr i bawb sydd yn glŷn â hwy ac mae'n codi cwestiynau i'r Gwasanaeth Carchardai. Caiff Cynlluniau Gweithredu Ombwdsmon y Carchar a'r Gwasanaeth Prawf eu trafod yn llawn yn y cyfarfodydd Carcharu Diogelach gydag argymhellion yn cael eu gweithredu.

5.6.6 Yn ystod y flwyddyn bu un weithred o drais sylweddol a gyflawnwyd gan un dyn yn erbyn y llall a arweiniodd at arhosiad hir mewn ysbyty ac ymchwiliad gan yr heddlu.

5.6.7 Mae'r Tîm Carcharu Diogelach wrthi ar hyn o bryd yn rhedeg cwrs Adferiad Clyfar i helpu dynion â phroblemau iechyd meddwl. Caiff dynion yn gyffredinol eu hadnabod fel rhan o'r broses ACCT. Mae'r tîm yn datblygu cysylltiadau cryfach gydag amrywiaeth o asiantaethau iechyd meddwl fel Hafal. Mae seicolegydd bellach yn gweithio gyda dynion a adnabuwyd a chynhyrchir adroddiadau i staff i'w cynorthwyo hwy wrth ryngweithio â'r dynion a'u rheoli.

5.6.8 Mae 10 o Wrandawyr hyfforddedig ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae natur gyfnewidiol y boblogaeth yn golygu bod Gwrandawyr yn aml yn cael eu trosglwyddo'n fuan ar ôl hyfforddi. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wnânt, a'u bod yn aml yn gorfod cyflawni eu gwaith mewn amgylchiadau anodd. Mae cyfyngiadau ariannol wedi rhwystro sefydlu Ystafelloedd Gwrando, datblygiad y mae angen mawr amdano. Nid oes unrhyw amheuaeth am effaith toriadau ariannol a chyni economaidd. Gydag adnoddau ariannol addas byddai'n bosibl gweithredu llawer o'r cynlluniau y mae'r tîm yn awyddus i'w gwneud.

5.6.9 Fel yr adroddwyd eisoes, mae diffyg gofod cyfweld preifat ar yr Adain Sefydlu yn dal i fod yn broblem. Mae'n annerbyniol gofyn cwestiynau personol i ddynion am eu hiechyd, eu tueddiadau i hunan-niweidio a'u rhywioldeb pan maent yn eistedd ar fwrdd ar landing yr adain lle mae dynion eraill yn crwydro o gwmpas.

5.6.10 Er bod y Bwrdd yn nodi bod cynnydd sylweddol wedi bod dros y chwe mis diwethaf, mae'n dal i fod lle i wella. Gyda Charcharu Diogelach yn flaenoriaeth uchel yn y carchar, mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhagweld gwelliant cynaliadwy parhaus yn y dyfodol agos.

### **CADW AR WAHÂN, GWAHANU A GOFAL**

5.7.1 Mae'r Uned Gofal a Chadw ar Wahân yn dal i fod y rhan o'r sefydliad yr ymwelir ag ef fwyaf ac a gaiff ei fonitro fwyaf gan aelodau'r Bwrdd. Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn ymweld â'r rhan hwn o'r Carchar ar bob achlysur y maent yn mynd i Garchar Ei Mawrhydi, Abertawe.

5.7.2 Mae'r staff yn brofiadol iawn ac yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gallu cael at garcharorion a gedwir ar wahân pryd bynnag y gofynnant am hynny. Mae'r gwaith papur a chofnodion carcharorion ar gael yn rhwydd i aelodau'r Bwrdd ar gais.

5.7.3 Yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, fe wnaeth y Bwrdd dynnu sylw at broblemau lle nad oedd aelodau'n cael eu hysbysu'n rheolaidd ynghylch adolygiadau. Er y bu rhywfaint o welliant, nid yw hyn wedi bod yn gyson. O ganlyniad, bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro yn unol â hynny. Teimlwn ei bod yn hanfodol yn ein rôl fel Monitoriaid gwirioneddol Annibynnol o'r Sefydliad hwn ein bod ni'n cael gwybod am adolygiadau.

5.7.5 Caiff dyfarniadau hefyd eu clywed yn y rhan hwn o'r sefydliad a nodir y bu, yn anffodus, gynnydd arall yn nifer y dyfarniadau, y defnydd o rym a'r defnydd o gelloedd cadw ar wahân. Yn rhannol, gall hyn fod yn sgil gwell

gwybodaeth yn cael ei defnyddio o fewn y sefydliad sy'n arwain at fwy o droseddau'n cael eu darganfod.

## **DYFARNIADAU**

5.8.1 Mae pob Aelod o'r Bwrdd yn manteisio ar y cyfle i arsylwi Dyfarniadau Llywodraethwyr yn ystod eu hymweliadau rota pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn gwirio bod y gwrandawiadau'n cael eu cynnal mewn modd teg a chryno, gyda'r troseddwr yn deall pob agwedd o'r drefn a bod gwrandawiadau'n cael eu cynnal gan rai o radd Llywodraethwr.

5.8.2 Daethpwyd â chyfanswm o 1285 o gyhuddiadau yn erbyn carcharorion yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 349. Mewn 181 (14%) o'r holl achosion barnwyd nad oedd sail i'r cyhuddiadau wrth eu hadolygu ymhellach a chawsant eu gollwng yn ddiweddarach. Yn 102 (8%) o'r achosion, roedd y carcharor wedi cael ei ryddhau, nid oedd wedi dychwelyd o'r llys, neu roedd wedi cael ei drosglwyddo i garchar arall. Mewn 384 (30%) o'r achosion mwy difrifol gafodd y dyfarniad ei atgyfeirio i Ddyfarnwr Allanol Annibynnol/Barnwr Ardal.

5.8.3 Ymdriniwyd â thua 80% o'r dyfarniadau a glywyd gan Lywodraethwyr y Carchar, ac 20% gan farnwr allanol, gyda'r dyfarniadau'n ymwneud ag amrywiol gosbau o golli breintiau ac enillion carchar am dramgwyddau llai, i golli cymdeithasu ac ychwanegu dyddiau ychwanegol at y ddedfryd am dramgwyddau mwy difrifol.

5.8.4 Mae archwiliad manwl o gofnodion dyfarnu yn datgelu bod troseddau yn cael eu rhannu fel a ganlyn.

- Ymosod 14%
- Gwrthod Cydymffurfio 16%
- Cysylltiedig â Chyffuriau 10%
- Difrod i Eiddo 12%
- Torri PSO 4400/Aflonyddu 12%
- Meddiant heb Ganiatâd 6%
- Cysylltiedig â Ffôn Symudol / Pin 2%
- Cysylltiedig ag Alcohol 2%
- Mewn lle heb Ganiatâd 10%
- Amrywiol 16%

Mae dadansoddiad o'r troseddau yn ôl ethnigrwydd yn dangos ei fod yn gyffredinol gymesur â dosbarthiad ethnig poblogaeth y carchar.

## **GWASANAETHAU PRESWYL**

5.9.1 Mae Abertawe'n dal i fod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn yn y wlad. Amlygwyd y ffaith anffodus hon mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol ac rydym yn siomedig ein bod yn gorfod adrodd bod hyn yn dal i fod yn wir. Cafodd y carchar ei gynllunio i ddal 219 o garcharorion, gydag adain newydd G ar waith mae hyn wedi codi i 279, ond mae'n dal hyd at 515 ar hyn o bryd.

5.9.2 Mae dau garcharor yn y mwyafrif o gelloedd ac mae diffyg llenni preifatrwydd yn sgrinio'r toiledau wedi cael ei godi lawer gwaith.

5.9.3 Mae'r gwaith o uwchraddio cyfleusterau cawod wedi cychwyn ac mae'r heriau o wneud trefniadau eraill ar gyfer cawodydd wedi cael eu rheoli'n dda.

5.9.4 Mae Rheolwr Arlwygo Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn rhedeg adran effeithlon sydd wedi'i rheoli'n dda. Tystiolaethir i'r ffaith hon gan yr arolygiadau gan NOMS ac Adran Amgylcheddol Dinas a Sir Abertawe. Mae'r Adran yn darparu dewis amrywiol ac addas o fwyd, ac yn cynnal Arolygon Arlwygo rheolaidd a Bwydlenni Thematig bob mis.

5.9.5 Gwnaed ymweliad wedi'i gynllunio â Charchar Ei Mawrhydi Abertawe, gan Grŵp Gwasanaethau Gweithredol ac Ymyrryd NOMS, ar 23 Chwefror 2016 i gynnig canllawiau a chymorth arlwygo arbenigol parhaus i'r sefydliad. Nod yr ymweliad hwn oedd cynnal Aseiad Cynllunio Bwydlenni a Darparu Prydau.

5.9.6 Roedd yr asesiad bwydlenni a phrydau yn ymwneud ag arolygu nifer o brosesau ac arferion allweddol fel:

- Llunio bwydlen
- Cynnal a datblygu diet wedi'i gydbwyso'n dda
- Dietau crefyddol, diwylliannol a bwriadol
- Arolygon cwsmeriaid, a
- Rheolaeth ar gyllidebau.

Cafodd pob maes radd Gwyrdd ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

5.9.7 Dechreuodd prosiect llawr y gegin ar Fai 23<sup>ain</sup> 2016 ac mae disgwyl iddo gael ei orffen yn gynnar ym mis Rhagfyr ac fe fydd amserau anodd iawn o'n blaenau. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn 4 cyfnod, trafodir problemau cyn pob cyfnod newydd er mwyn sicrhau cynnal gwasanaeth llawn heb golli dim ar yr ansawdd.

5.9.8 Mae'r Adran wedi cyflogi Swyddog Arlwygo Band 3 yn llwyddiannus, gan ddod â'r lefel staffio i -  
Rheolwr Arlwygo Band 6  
2 x Swyddog Goruchwylio Arlwygo Band 4  
3 x Swyddog Arlwygo Band 3



5.9.9 Fe wnaeth Adran Iechyd yr Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe arolygiad blynyddol o'r gegin ac o'r cyfleusterau arlwyo a dyfarnwyd sgôr o BUMP, sef y sgôr uchaf i'r gwaith a wneir yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe.

5.9.10 Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r swyddogaeth cynnal a chadw a gweithfeydd wedi cael ei osod i gcontractwr allanol, AMEY. Er ei bod yn ddyddiau cynnar yn y contract, mae problemau wedi cael eu hadrodd gyda gwaith ac atgyweiriadau'n cymryd mwy o amser nag o dan y gyfundrefn flaenorol. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

5.9.11 Caiff pob larwm tân ei phrofi'n wythnosol gan Swyddog Tân. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn roedd problemau gyda'r larymau tân yn cael eu riportio'n gyson gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r problemau hyn wedi cael eu cywiro bellach.

5.9.12 Mae'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau a sylweddau gwaharddedig eraill yn dal i beri her sylweddol i reolwyr y sefydliad. Caiff y "Cŵn Cyffuriau" eu rhannu gan dri charchar, sy'n golygu nad oes gwasanaeth cyson ar gyfer dal ac atal.

5.9.13 Er bod Iechyd a Diogelwch o'r pwysigrwydd mwyaf a phob hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu, roedd y Bwrdd yn siomedig nad oedd amllder y cyfarfodydd wedi gwella yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, gyda chyfarfodydd yn cael eu canslo ar fyr rybudd. Fodd bynnag, yn rhan olaf y flwyddyn dechreuodd cyfarfodydd gael eu cadeirio gan y Llywodraethwr a nodwyd gwelliannau sylweddol yn amllder cyfarfodydd, mewn presenoldeb a hefyd yn effeithiolrwydd y Pwyllgor.

## **ADRAN 6 - RHANNAU ERAILL O'R CARCHAR**

### **DERBYN A SEFYDLU**

6.1.1 Pan gyrhaeddant, caiff y dynion eu gweld gan aelod o'r Tîm Gofal Iechyd cyn gadael y Dderbynfa. Mae staff gofal iechyd yn cwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol a chaiff meysydd risg eu hadnabod ac ymdrinnir â hwy trwy offeryn sgrinio noson gyntaf yn y ddalfa, CSRA ac ACCT, os oes angen. Mae cyfleusterau cawodydd ar gael, yn ogystal â diodydd a phrydau poeth i'r rheini sy'n dod i mewn yn ystod gyda'r nos.

6.1.2 Mae gan yr Ardal Dderbyn amrywiaeth helaeth o bosteri ar gael, mewn amrywiol ieithoedd i helpu carcharorion i ddeall y system. Mae cyfleusterau cyfieithu dros y ffôn hefyd ar gael. Yn ogystal, mae Gwrandawyr ar gael yn yr Ardal Dderbyn o 16:30 ac yn ystod y gyda'r nosau sy'n cymysgu'n anffurfiol â charcharorion newydd i roi sylw i unrhyw bryderon. Mae carcharorion sy'n cyrraedd cyn hyn yn gorfod gofyn am wasanaethau Gwrandawr a byddai eu dymuniadau'n cael eu gwireddu cyn belled â bod hynny'n ymarferol.

6.1.3 Mewn blynyddoedd a fu roedd y Bwrdd wedi nodi pryderon ynghylch y ffaith fod carcharorion yn cyrraedd yn hwyr o lysoedd ymhell i ffwrdd,

oherwydd anallu sefydliadau nes atynt i'w cymryd. Er bod y sefyllfa hon wedi gwella, mae'n dal i fod yn broblem.

6.1.5 Ar ôl gadael y Dderbynfa, caiff y dynion eu lleoli i ddechrau ar yr Uned Noson Gyntaf, sydd ar Adain B. Yn anffodus, mae diffyg Ystafelloedd Cyfweld unswydd i'r pwrpas yn dal i fod yn broblem. O ganlyniad, ychydig iawn o breifatrwydd sydd o hyd i alluogi staff i ryngweithio â'r dynion. Ymddengys fod gan y swyddogion a'r dynion berthynas waith ragorol a bydd swyddogion yn treulio amser gyda charcharorion newydd hyd nes y maent yn setlo i lawr i fywyd carchar.

6.1.6 Mae'r dynion yn cael dogfen gyflwyno sy'n ymwneud ag elfennau o fywyd carchar. Gofynnir iddynt hefyd gwblhau'r Holiadur Cydraddoldeb ac esbonir y broses DIRF iddynt. Mae llyfrynnau "Hawdd eu Darllen" ar gael i ddynion ag anabledau dysgu. Caiff y dynion eu dyrannu hefyd i ITC ar y diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu derbyn, a gaiff ei ddarparu gan aelodau gweithredol o staff, ochr yn ochr â Gwrandawr, sy'n rhoi manylion am bob agwedd o fywyd carchar, gan gynnwys dogfennaeth megis Ceisiadau, Cwynion a DIRFs.

6.1.7 Agorwyd Adain G ym mis Medi 2015 ac mae wedi bod yn rhedeg fel rhan o'r Prosiect Amgylchedd Galluogi. Dechreuodd redeg cyrsiau adfer o ddbyniaeth cyffuriau ym mis Ionawr 2016, gyda lefel uchel o lwyddiant, a brofwyd trwy brofi gwirfoddol am gyffuriau. Mae ar hyn o bryd yn y broses o newid swyddogaeth i Adain Ailsefydlu, sy'n dal o dan y Prosiect Amgylcheddau Galluogi, ac mae'n gweithio tuag at ennill y dyfarniad yn ystod y flwyddyn.

## **ADRAN 7 – GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL**

Mae'r ceisiadau wedi cael eu dadansoddi yn ôl categori

Categori	09/10	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16
Llety	0	1	2	2	1	3	2
Dyfarniadau	1	0	0	0	4	6	1
Cyfleusterau'r ffreutur/Siopa catalog/Argos	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	0	8
Addysg/Cyflogaeth/Hyfforddiant	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	7	8
Cydraddoldeb/Amrywiaeth	0	0	1	0	0	2	11
Cyllid/Tâl	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	Ni chofnodwyd	2	2
Bwyd	1	1	0	3	6	4	3
Llythyrau	1	1	0	1	0	6	3

Meddygol	13	4	8	8	11	43	35
Eiddo/trosglwyddo	4	0	4	0	4	17	11
Eiddo/sefydliad presennol	0	0	0	1	3	10	11
Materion yn ymwneud â dedfrydu, gan gynnwys HDC, parôl, ROTL, ail-gategoreiddio, dyddiad rhyddhau *	4	0	1	0	3	19	37
Bwlio, Pryderon staff/carcharorion	2	0	4	1	3	5	14
Trosglwyddo	2	2	1	2	2	7	7
Ymweliadau	4	4	6	3	1	9	14
Amrywiol	11	9	6	10	14	29	27
<b>CYFANSWM</b>	<b>43</b>	<b>22</b>	<b>33</b>	<b>31</b>	<b>52</b>	<b>169</b>	<b>194</b>

- HDC – Cyrffyw Cadw Gartref
- ROTL – Rhyddhau ar drwydded dros dro
- Recat - Ailgategoreiddio

Yn ystod y cyfnod yr adroddir arno, derbyniodd y Bwrdd 11 o Gwynion Safonol, 27 o Gwynion Mynediad Cyfrinachol ac 1 Gwyn Gofal Iechyd.

<b>YSTADEGAU'R BWRDD</b>	
Y cwota a argymhellir o Aelodau'r Bwrdd	12
Nifer aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod yr adroddir arno	11
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod yr adroddir arno	8
Nifer o aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod yr adroddir arno	0

Nifer o aelodau'n gadael o fewn y cyfnod adrodd	3
Cyfanswm nifer cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y cyfnod yr adroddir arno	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad	249
Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd [gan gynnwys Cwynion Mynediad Cyfrinachol]	233